

PWYLLGOR ARCHWILIO AC ADOLYGU GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

22 Tachwedd 2017

Yn Bresennol: Cynghorydd M Williams (Cadeirydd)
Mr A Archer, Mrs G Hayward, Dr R Heath Davies a'r Cynghorydd R
Owens.

*[Cyrhaeddodd y Cynghorydd M James yn ystod ystyried yr
adroddiad ar berfformiad y gyllideb, y cyfeirir ato yng Nghofnod 7.]*

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 11.00am – 12.50pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd P Kidney. Awgrymwyd pe na fyddai'r Aelodau, yn y dyfodol, yn gallu mynychu cyfarfod, eu bod yn ceisio dod o hyd i ddirprwy i fynychu yn eu lle.

2. Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd M Williams bod ganddo fuddiant yn yn yr elfen o'r Adroddiad ar Berfformiad oedd yn cyfeirio at ymchwilio i fecanweithiau eraill o gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr gan ei fod yn ymwneud ag Amgueddfa Dinbych-y-pysgod, ond fe barhaodd yn yr ystafell a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar y mater hwn.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19^{eg} o Orffennaf 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19^{eg} o Orffennaf 2017.

4. Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad y cyfarfod o'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017.

Nododd yr Aelodau o'r atodiad i'r cofnodion bod dau ddigwyddiad o ymosod wedi cael eu cofnodi yn 2015. Holwyd y Prif Weithredwr pam fod dau ddigwyddiad wedi'u cofnodi gan nad oedd disgwyl i staff nac Aelodau fod yn destun ymosodiad. Credai bod nifer y digwyddiadau wedi cynyddu ers rhoi sylw i'r pwnc, ac felly roedd yn annog pobl i roi gwybod am y cyfryw ddigwyddiadau. Holodd Aelod arall am y gweithdrefnau ar gyfer staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, a chadarnhaodd y Prif



Weithredwr bod y gweithdrefnau hyn ar waith, a bod hyfforddiant ar gadernid a diogelwch personol wedi'i gynnal. Fodd bynnag, er gwybodaeth, nododd un Aelod bod yr Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh wedi cynnal hyfforddiant rhagorol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad o gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017.

5. Adroddiad yr Archwilydd Mewnol 2017/18

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Mr Robin Pritchard o Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, Gateway Assure. Eglurodd Mr Pritchard bod yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau yn ganlyniad gwaith a gwblhawyd yn erbyn Bloc 2 o Gynllun Archwilio Gweithredol 2017/18 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor yn flaenorol, a bod y gwaith yn cwmpasu Cyfathrebu, creu incwm, a gwiriad iechyd Technoleg Gwybodaeth. Roedd sicrwydd sylweddol wedi'i roi ym mhob maes, ac roedd y canfyddiadau, y casgliadau ac unrhyw argymhellion wedi'u nodi yn yr adroddiad.

O ran creu incwm, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r Aelodau drwy ddweud bod y Rheolwr Cyllid Allanol wedi dechrau yn ei swydd yn ddiweddar. Roedd yr Aelodau yn cydnabod pwysigrwydd y rôl hon, ar ôl clywed am y ffrwd enfawr o incwm yr oedd y ffynhonnell hon wedi'i greu mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill.

Eglurodd Mr Pritchard bod y Gwiriad Iechyd Technoleg Gwybodaeth wedi canolbwyntio ar y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data a ddaeth i rym fis Mai 2018. Holodd yr Aelodau ynglŷn â'r argymhelliad i ddiweddarau'r Strategaeth TG a gofyn pam nad oedd hyn eisoes wedi'i gwblhau. Eglurodd yr Archwilydd Mewnol ei fod yn ymwybodol bod y gwaith yn mynd rhagddo a gan nad oedd y terfyn amser wedi mynd heibio nad oedd hyn yn faes oedd yn peri pryder. O ran parhad busnes, lle'r oedd y targedau wedi llithro, roedd y swyddogion wedi cydnabod nad oedd yr Awdurdod mor gydnerth ag yr oedd wedi bod neu wedi hoffi bod, ond roedd hyn i'w briodoli i'r ffaith bod y gyllideb wedi crebachu. Fodd bynnag, mynegodd y Prif Weithredwr ei hyder y gellid delio ag unrhyw ddigwyddiad yn briodol.

NODWYD.

[Nid oedd y Cyngorydd R Owens yn bresennol am y cyfan o'r drafodaeth ganlynol.]

6. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod oedd yn diweddu ar 30 Medi 2017

Atgoffodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Aelodau bod strwythur Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod ar gyfer



2017/18 yn amlygu strwythur y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oedd â saith o amcanion llesiant. Roedd yr adroddiad perfformiad hefyd wedi'i addasu i ddilyn yr amcanion hyn, gydag adran ychwanegol sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 30 Medi 2017, ac yn amlygu rhai o'r dangosyddion hynny lle'r oedd y dangosydd statws coch melyn gwyrdd yn goch.

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl i adroddiad ar nifer y ceisiadau ôl-weithredol a dderbyniodd yr Awdurdod gael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol. O ran y ffigurau gorfodi ar dudalen 41 yr adroddiad, roedd y swyddogion yn cydnabod bod hwn yn faes heriol i bob awdurdod cynllunio. Yn ddiweddar llwyddwyd i recriwtio Swyddog Gorfodaeth, a'r gobaith oedd y byddai hyn yn dod â'r lefelau staffio yn ôl yn gyflawn. Bu peth trafodaeth ynglŷn â'r nifer o amodau a osodir ar geisiadau, a gallu'r Awdurdod i'w gorfodi. Awgrymwyd y byddai gweithdy i'r Aelodau yn ddefnyddiol pan ellid trafod yr holl faterion hyn.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad perfformiad.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd M James adeg ystyried yr adroddiad canlynol.]

7. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb - 6 mis hyd at fis Medi 2017

Yn absenoldeb y Rheolwr Cyllid, cymerodd y Prif Weithredwr yr Aelodau drwy'r adroddiad ar berfformiad y gyllideb. Dangosodd hyn mai'r gwariant referniw net oedd £1,944,000, 15.2% o dan y gyllideb a broffwydwyd am y cyfnod o 6 mis, a nodwyd y prif resymau dros yr amrywiant. Hefyd rhoddwyd manylion am y Rhaglen Gyfalaf a'r Cronfeydd Wrth Gefn a Ganiateir eu Defnyddio a'r Cronfeydd a Glustnodwyd.

Ychwanegodd, ar ôl cyfarfod â'r Gweinidog newydd dros yr Amgylchedd yn ddiweddar, mai'r awgrym oedd y byddai toriad o 5% yng nghyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2018/19 ynghyd â bod gostyngiad tebyg yn debygol ar gyfer 19/20.

Canmolodd yr Aelodau y modd yr oedd y gostyngiad mewn cyllid wedi'i reoli dros y blynyddoedd diwethaf, ond nodwyd na allai hyn barhau. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr ymagwedd sy'n seiliedig ar brosiectau tuag at gyllido a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu ei bod yn anodd i swyddogion ac Aelodau gynllunio i'r dyfodol. Fodd bynnag roedd amrywiaeth o wahanol brosiectau wedi'u cyflwyno yn y flwyddyn gyfredol. Awgrymwyd bod y sectorau iechyd a lles, yn ogystal â diwylliant a threftadaeth, yn feysydd pellach y gellid eu harchwilio am gyllid ychwanegol.



NODWYD.

8. Cofrestr Risg

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arweinyddiaeth yr Awdurdod pan nodwyd y camau ymlaen a gymerwyd a'r newidiadau. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd yn risg 1 oherwydd gostyngiad posibl mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru, ac yn risg 28 ar gyflwyno'r system rheoli dogfennau newydd, a gostyngiad yn risg 35 ar fethiant i gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol yn ôl y ffrâm amser y cytunwyd arno.

Cydnabuwyd bod y penderfyniadau a gymerir gan yr Aelodau yn golygu bod canlyniadau i'r penderfyniadau hynny, yn enwedig o ran materion cynllunio, ac roedd y risg bod yr Awdurdod yn gorfod talu'r costau pan gollir apêl yn un o'r risgiau hynny. Roedd y risg o niwed i enw da yr Awdurdod yn sgîl cau'r Ganolfan Ymwelwyr yn Nhrefdraeth yn enghraifft arall a amlygwyd.

O ran safle'r Awdurdod yng Nghilrhedyn, ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad ar ddyfodol y safle hwn yn dod gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

NODWYD.

9. Newidiadau Deddfwriaethol mewn Diogelu Data

Dywedwyd mai rhaid oedd gohirio'r cyflwyniad hwn tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.

NODWYD.

10. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus

PENDERFYNWYD nad oedd unrhyw faterion oedd yn peri pryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

